# Tŷ Grosvenor

Gwasanaeth Adsefydlu i ddynion

16 Grosvenor Road,
Wrecsam, LL11 1BU

**Ffôn: 01978 802800**

**E-bost: tygrosvenor@elysiumhealthcare.co.uk**





## Trosolwg


Gwasanaeth adsefydlu sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gymuned ar gyfer dynion sydd â phroblemau iechyd meddwl a allai hefyd fod wedi cael diagnosis o anhwylder personoliaethyw Tŷ Grosvenor. Nod y gwasanaeth yw rhoi i bob claf y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer byw yn y gymuned a rhagor o annibyniaeth.



## Model gofal

Mae pob claf yn Nhŷ Grosvenor yn cael eu hannog i gydweithredu â'r tîm i ddatblygu cynllun triniaeth unigol yn seiliedig ar eu hanghenion, eu nodau a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Mae ymyriadau'n canolbwyntio ar dosturi ac yn cael eu llywio gan drawma, gan reoli iechyd meddwl a chorfforol mewn modd cydweithredol. Eu nod yw meithrin perthnasau therapiwtig ymddiriedus â staff a hybu perthnasau ystyrlon a chefnogol â'r teulu yn ogystal ag ymgysylltu cymdeithasol a chymunedol, lleihau risg, annibyniaeth, ac ymreolaeth. Cyflawnir y nodau hyn drwy'r dulliau canlynol:

- Fframwaith Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol
- Model cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar dosturi—mae pob rhyngweithiad, ymyriad therapiwtig a strategaeth rheoli risg yn cwmpasu dull sy'n cael eu llywio gan dosturi sy'n gallu hybu ymddiriedaeth, hunan-barch cadarnhaol, a gwell lles meddyliol
- Dull ymarfer sy'n ystyriol o drawma
- Archwilio, datblygu a chynnal gweithgareddau ystyrlon
- Ymarfer gyda sgiliau byw dyddiol er mwyn gwella neu gynnal gweithrediad
- Rheoli meddyginiaeth
- Meithrin perthnasau â staff, teulu a ffrindiau
- Ymgysylltu â'r gymuned
- Pennu nodau ystyrlon
- Meithrin ymddiriedaeth a gobaith
- Ymyriad unigol a nodir ar sail asesiad a fformwleiddiad unigol er mwyn sicrhau bod ymyriadau therapiwtig yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn unigoledig ac yn ystyrlon gyda'r bwriad o hybu iechyd meddwl cadarnhaol a lleihau risg
- Bydd gwaith grŵp yn dechrau a bydd yn defnyddio nifer o ddulliau sy'n hygyrch ar gyfer pob angen
- Gweithgareddau Iechyd, ffitrwydd ac awyr agored
- Cyfleoedd gwaith â chymorth yn yr ysbyty
- Cyfleoedd galwedigaethol yn y gymuned
- Cyrsiau coleg ac addysg





## Y Tîm

Mae gennym Dîm Amlddisgyblaethol ymroddedig sy'n darparu gofal arbenigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sydd wedi ei addasu i ddiwallu anghenion unigol. Mae'r tîm yn cynnwys Seiciatrydd Ymgynghorol, Meddyg Arbenigol Cysylltiol, Therapydd Galwedigaethol, Seicolegydd, Gweithiwr Cymdeithasol, Nyrsys, Seicoleg, Cynorthwywyr, Hyfforddwyr Technegol a Gweithwyr Adfer. Y pwyslais yn Nhŷ Grosvenor yw cydweithredu â phob unigolyn, er mwyn personoli eu hadferiad gan ddefnyddio cymysgedd o therapïau. Rydym yn cydnabod nad yw un dull yn addas i bob claf sydd â diagnosis tebyg.

## Mesurau risg a chanlyniadau

Mae'r Tîm Amlddisgyblaethol yn cydweithio gan ddarparu gofal o ansawdd uchel gan ddefnyddio amrywiaeth o fesurau canlyniadau i fonitro cynnydd, mae'r rhain yn cynnwys:

- Health of the Nation Outcome Scores (HoNOS – Secure)
- Cynlluniau Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol
- Asesiad Risg START
- HCR20 Assessing Risk for Violence
- Offeryn Statws Iechyd EuroQol
- Model of Human Occupation (MoHO)
- Offeryn Sgrinio (MOHOST)
- Lester Positive Cardiometabolic
- Offeryn Iechyd
- Assessment of Motor and Process Skills (AMPS)

Trwy fonitro cynnydd cleifion yn barhaus, rydym yn disgwyl gweld:

- Gwelliannau mewn hunanreolaeth iechyd meddwl
- Rheoli ymddygiadau yn effeithiol
- Lleihau risgiau
- Cynnal iechyd corfforol da
- Gwell hunan-barch a hunan-werth
- Gwell sgiliau hunanofal a sgiliau byw dyddiol
- Meithrin rhwydweithiau cymdeithasol ystyrlon
- Ymgysylltu â lleoliadau gwaith
- Paratoi ar gyfer byw'n llwyddiannus yn y gymuned

## Integreiddio cymunedol a pharatoi i ryddhau cleifion

Mae'r gwaith o baratoi i ryddhau cleifion yn dechrau pan maent yn cael eu derbyn. Mae cleifion yn dechrau eu taith ar Ward Brenig lle cânt eu cefnogi i hunanarlwyo, i hunanfeddyginiaethu, i ymgysylltu â chyfleoedd galwedigaethol ac i integreiddio eu hunain i'r gymuned leol cyn cael eu rhyddhau. Mae pwyslais ar gael gafael ar adnoddau prif ffrwd yn y gymuned leol yn rhoi cyfle i gleifion ddatblygu sgiliau cymunedol.

## Amgylchedd

Lleolir Tŷ Grosvenor yn Wrecsam yn y gogledd, dim ond taith gerdded fer oddi wrth ganol y dref, caffis a bwyty, cyfleusterau hamdden a cholegau lleol. Mae gan y gwasanaeth ddwy ward gydag ystafelloedd gwely a chanddynt gyfleusterau en suite. Ceir ystafell fwyta fawr, lolfa ac ardal hamdden gymunedol, gan gynnwys bwrdd pŵl. Ceir dwy ystafell therapi galwedigaethol fawr lle gall cleifion ddefnyddio cyfrifiadur, dilyn gweithdai cyflogaeth, neu gymryd rhan mewn therapi grŵp ac amser hamdden. Ceir cegin adsefydlu a mynediad i fan gardd gaeëdig. Mae WiFi ar gael drwy'r adeilad a gall cleifion gael gafael ar dechnoleg megis adnoddau ar gyfer dysgu a chymdeithasu ac adnoddau hamdden.

## Meini prawf derbyn

- Dynion 18–65 oed
- Diagnosis sylfaenol o broblem iechyd meddwl
- Anffurfiol neu dan orchymyn o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (diwygiwyd 2007) neu'r Ddeddf Galluedd Meddyliol
- Diagnosis eilaidd o anhwylder personoliaeth, anabledd dysgu ysgafn, anhwylder camddefnyddio sylweddau neu hanes fforensig





Elysium Healthcare

**Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn gwahanol ieithoedd, braille, Hawdd ei Deall ac Iaith Arwyddion Prydain ar gais**

I gael rhagor o wybodaeth, i drefnu ymweliad, neu i wneud atgyfeiriad, ffoniwch ein llinell atgyfeirio 24 awr ar: **0800 218 2398** neu e-bostiwch: **referrals@elysiumhealthcare.co.uk**

I weld ein taith fideo, ewch i **elysiumhealthcare.co.uk**

Part of Ramsay Health Care

1606/0423